



Y TYWYDD

Cam 1

Saesneg

Cân

Mae hi'n bwrw glaw

Mae hi'n bwrw glaw.

Mae hi'n bwrw glaw.

Pit pat pit pat,

Mae hi'n bwrw glaw.

Tôn: 'The Farmer's in his Den'



Gweithgareddau / Activities

1. Keep a weather chart or diary for a week.
2. You need a map of Wales and weather symbols. Place the symbols on the map. Say how is the weather in each area.
3. Complete the table. The first has been done.

gair	rhy	eitha	iawn
poeth	rhy boeth	eitha poeth	poeth iawn
cynnes			
stormus			
gwyntog			
braf			
twym			

4. Complete the table. The first has been done.

cynnes	yn gynnes	poeth	yn
twym	yn	cerdded	yn
niwlog	yn	bwrw glaw	yn
rhewi	yn	gwyntog	yn

5. Complete the table. The first has been done.

Mae hi'n fis	Ionawr.	Mae hi'n rhewi.
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis	Ebrill.	
Mae hi'n fis		Mae hi'n eitha poeth.
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis		
Mae hi'n fis		Mae hi'n niwlog iawn.
Mae hi'n fis		

Mae hi'n bwrw glaw yn Abertawe, ond mae hi'n eitha heulog yn Llanelli.

Yn Aberystwyth a Bangor, mae hi'n braf iawn heddiw.

Mae'r tywydd yn stormus yn Llanfyllin. Mae hi'n bwrw glaw ac mae hi'n wyntog iawn, iawn.

Mae hi'n wlyb yn Llandrindod. Mae hi'n rhy wlyb i fynd allan.

P1 Sut mae'r tywydd 'da ti heddiw?

P2 Mae hi'n eitha braf nawr ond yn y bore roedd hi'n niwlog. Sut mae hi 'da ti?

P1 Mae hi'n bwrw glaw ac mae hi'n wyntog hefyd.

P2 Dydy hi ddim yn rhewi.

P1 Nac ydy, dydy hi ddim yn oer iawn ond mae hi'n eitha niwlog.

P2 Mae'r tywydd yn ofnadwy. Dyna drueni.

P1 Ie, ond mae hi bob amser yn niwlog ac yn wyntog ym mis Tachwedd.

Oddi wrth: Sarah Phillips

At: Ben Thomas

Dyddiad: Ionawr 2009

Pwnc: Helo o Siberia

Helo Ben. Sut wyt ti? Mae Mam a fi'n cael amser da iawn yma yn Irkutsk efo teulu Dad. Mae hi'n oer iawn yma, tua - 40°C, ond mae pawb yn mwynhau'r tywydd. Mae hi'n oer ond mae hi'n heulog hefyd. Rydw i'n hoffi sgio efo fy ffrindiau newydd ar y penwythnos ond yn yr wythnos mae rhaid mynd i'r ysgol. Mae hi'n oer iawn, mae hi'n bwrw eirg ac mae hi'n rhewi ond mae'r ysgol ar agor - dim fel Cymru. Mae'r llyn (lake) wedi rhewi ond mae Mam yn gyrru'r car arno fe i fynd â fi i'r ysgol!

Dw i'n edrych ymlaen at yr haf achos dw i eisiau nofio yn y llyn. Mae'r tywydd yn braf iawn yma yn yr haf, rhwng 35°C a 40°C. Mae Irkutsk yn lle ardderchog i fyw ond dw i hefyd yn edrych ymlaen at ddod nôl i Gymru ym mis Medi.

Hwyl
Sarah



Celffa

Patrymau

Dyddiau'r wythnos

Days of the week

dydd Sul	Sunday
dydd Llun	Monday
dydd Mawrth	Tuesday
dydd Mercher	Wednesday
dydd Iau	Thursday
dydd Gwener	Friday
dydd Sadwrn	Saturday

Misoedd y flwyddyn

Months of the year

Ionawr	January
Chwefror	February
Mawrth	March
Ebrill	April
Mai	May
Mehfin	June
Gorffennaf	July
Awst	August
Medi	September
Hydref	October
Tachwedd	November
Rhagfyr	December

Y tywydd

The weather

braf	fine
bwrw eira	to snow
bwrw glaw	to rain
gwyntog	windy
heulog	sunny
niwlog	foggy
rhewi	to freeze
stormus	stormy

Ansoddeiriau

Adjectives

cynnes	warm
oer	cold
poeth	hot
twym	hot

hi'n braf

it hot

Was it

It

Oedd hi'n oer yn si

Sut mae'r tywydd?

What's the weather like?

Ydy hi'n oer?

Is it cold?

Ydy, mae hi'n oer iawn.

Yes, it's very cold.

Nac ydy, mae hi'n eitha cynnes.

No, it's quite warm.

Pa ddiwrnod ydy hi?

What day is it?

Dydd Mawrth ydy hi.

It's Tuesday.

Pa fis ydy hi?

What month is it?

Mis Mawrth ydy hi.

It's March.

Mis Ionawr ydy hi. Mae hi'n rhewi.

It's January. It's freezing.

Mae hi'n rhy oer i fynd i'r parc.

It's too cold to go to the park.

yn + verb = no mutation
yn bwrw glaw
yn rhewi

yn / 'n + adjective = soft mutation

Mae hi'n gynnes.

Oedd hi'n boeth?

Dydy hi ddim yn dwym.

Doedd hi ddim yn wyntog.

iawn	very
eitha	quite
rhy	too

Word order

oer iawn	very cold
eitha oer	quite cold
rhy oer	too cold

Soft mutation

rhy boeth	too warm
-----------	----------